

y Gaer Interpretation Project for Powys CC English to Welsh translation request No: 6	
English	Cymraeg
<b>Int 47 DL32</b>	
School sampler by Mary Lewis	Sampl ysgol gan Mary Lewis
This cross-stitch sampler was created in 1833 by Mary Lewis, aged 10, to demonstrate her skill at needlework. The mid 19 <sup>th</sup> century witnessed a change in the previously neglected education of children. Many girls not working in rural employment began to attend a school, where needlework was one of the main subjects.	Crëwyd y sampl croesbwyth hwn ym 1833 gan Mary Lewis, 10 oed, i ddangos ei sgiliau gwnïo. Yng nghanol y 19 <sup>eg</sup> ganrif cafwyd newid yn addysg plant a oedd yn cael ei hesgeuluso cyn hynny. Dechreuodd llawer o ferched nad oeddent yn gweithio mewn cyflogaeth wledig fynychu ysgol, lle'r oedd gwnïo yn un o'r prif bynciau.
<b>Int 48 DL33</b>	
School sampler by Margaret Lewis	Sampl ysgol gan Margaret Lewis
This is a cross-stitch sampler produced by Margaret Lewis, aged 10, in 1834. This example incorporates the popular Welsh hymn <i>Guide Me, O Thou Great Jehovah</i> . Early elementary schools and Sunday schools instructed children in the Bible and singing as well as needlework, which come together in this religious piece of schoolwork.	Mae hwn yn sampl o groesbwyth a grëwyd gan Margaret Lewis, 10 oed, ym 1834. Mae'r enghraifft hon yn cyfuno'r emyn Cymreig poblogaidd <i>Guide Me, O Thou Great Jehovah</i> . Roedd ysgolion cynradd cynnar ac ysgolion Sul yn dysgu'r Beibl a chanu i blant, yn ogystal â gwaith gwnïo, sy'n dod ynghyd yn y darn crefyddol hwn o waith ysgol.
<b>Int 64 DL14</b>	
Silvered Roman spoons	Llwyau Rhufeinig wedi eu haraenu ag arian
These two Roman spoons were found in 1783 during the excavation of the elaborate bath-house of a Roman villa near Llanfrynach. The main building has not been found. Called 'cochlearia', they are of tinned or silvered bronze, typical of the early 4th century AD. The pointed handles may have been used for extracting shellfish.	Cafwyd hyd i'r ddwy lwy Rufeinig hyn ym 1783 wrth gloddio baddondy cywrain fila Rufeinig ger Llanfrynach. Ni ddaethpwyd o hyd i'r prif adeilad. Fe'i gelwir yn 'cochlearia', ac maent wedi eu haraenu â thun neu efydd arian, sy'n nodweddiadol o ddechrau'r 4 <sup>edd</sup> ganrif OC. Mae'n bosibl y cafodd y dolenni pigfain eu defnyddio i echdynnu pysgod cregyn.
<b>Int 65 DL14</b>	
Tombstone of a young cavalryman	Carreg fedd marchfilwr ifanc
Candidus was a Roman trooper of the Spanish Vettonian cavalry stationed at Brecon Gaer - the Roman fort at Aberyscir. He joined the army aged 17 but died aged 20. He is commemorated on this tombstone of the late first century AD. The expensive carving suggests that he (or the burial club into which soldiers contributed) was well off.	Milwr Rhufeinig yn y marchoglu Fetonaidd Sbaenaidd yng Nghaer Aberhonddu, sef y gaer Rufeinig yn Aberyscir, oedd Candidus. Ymunodd â'r fyddin yn 17 oed, ond bu farw'n 20 oed. Caiff ei goffáu ar y garreg fedd hon o ddiwedd y ganrif gyntaf OC. Mae'r cerfwaith drudfawr yn awgrymu ei fod ef (neu'r clwb claddu yr oedd y milwyr yn cyfrannu ato) yn gefnog.

<b>Int 66 DL14</b>	
<b>The Maiden Stone - a Roman tombstone</b>	<b>Carreg y Forwyn - carreg fedd Rufeinig</b>
This tombstone, known as the 'Maiden Stone', depicts a Roman soldier and his wife. It was found near Brecon Gaer - the Roman fort at Aberyscir - in the 16th century and was subsequently placed beside the Roman road. It is badly eroded even in early drawings, but was clearly an elaborate and expensive memorial.	Mae'r garreg fedd hon a adweinig yn Saesneg fel y 'Maiden Stone' yn portreadu milwr Rhufeinig a'i wraig. Fe'i canfuwyd ger Caer Aberhonddu – sef y gaer Rufeinig yn Aberyscir – yn y 16 <sup>eg</sup> ganrif ac fe'i lleolwyd wedyn wrth ochr y ffordd Rufeinig. Mae wedi erydu'n wael, hyd yn oed mewn lluniadau cynnar, ond roedd yn amlwg ei bod hi'n gofeb gywrain a chostus.
<b>Int 67 DL14</b>	
<b>Roman milestone from Millbrook, Llanhamlach</b>	<b>Carreg filltir Rufeinig o Millbrook, Llanhamlach</b>
This milestone was found built into the steps of a granary at Millbrook Farm just east of Brecon, close to the Roman road. The front face records (in abbreviated form) the name of the emperor Constantius Chlorus, dated to AD 296-306, and the reverse that of Constantine I or Constantine II, AD 306-340.	Daethpwyd o hyd i'r garreg filltir hon yn rhan o risiau'r granar yn fferm Millbrook, tua'r dwyrain o Aberhonddu, yn agos at y ffordd Rufeinig. Mae tu blaen y garreg filltir yn nodi (yn dalfyredig) enw'r ymerawdwr Constantius Chlorus, dyddiedig 296-306 OC, ac mae'r tu cefn yn nodi Cystennin I neu Cystennin II, 306-340 OC.
<b>Int 68 DL43</b>	
<b>Memorial to Turpilius</b>	<b>Cofeb i Turpilius</b>
This roughly inscribed stone, found on farmland north-east of Crickhowell, reads in Latin "Turpilius lies here", with a damaged Ogam script (an early medieval alphabet) alongside. It probably belongs to the 6th century AD. The rest of the inscription is difficult to interpret, but Turpilius may have been an important person.	Daethpwyd o hyd i'r garreg hon ag arysgrif fras, ar dir fferm i'r gogledd-ddwyrain o Grucywel. Mae'n dweud yn Lladin "Gorwedda Turpilius yma", mewn llawysgrifen Ogam (wyddor ganoloesol gynnar) ddifrodedig wrth ei hochr. Mae'n debyg ei bod yn perthyn i'r 6 <sup>ed</sup> ganrif OC. Mae gweddill yr arysgrif yn anodd ei dehongli, ond mae'n bosibl mai person pwysig oedd Turpilius.
<b>Int 69 DL18</b>	
<b>The Llywel Stone</b>	<b>Carreg Llywel</b>
This is a cast of a carved memorial stone, known as the Llywel Stone, now located in the British Museum. The carvings on this face (probably of seventh to tenth century AD) may depict Biblical scenes from the Old Testament. The reverse side has an earlier fifth century AD inscription, displayed upside down.	Cast o garreg goffa gerfiedig a adwaenir fel Carreg Llywel yw hwn. Fe'i lleolir bellach yn yr Amgueddfa Brydeinig. Mae'n bosibl bod cerfiadau ar yr wyneb hwn (o'r seithfed i'r ddegfed ganrif OC, mae'n debyg) yn portreadu golygfeydd o Hen Destament y Beibl. Mae gan yr ochr gefn arysgrif gynharach o'r bumed ganrif OC, a arddangosir wyneb i waered.

<b>Int 69 DL18</b>	
Reverse side of Llywel Stone	Ochr gefn Carreg Llywel
This face is inscribed 'MACCVTRENI SALICIDVNI', with the Ogam equivalent alongside. It may be late fifth or early sixth century AD, and the name appears to be of Irish origin. "Saliciduni" could mean "of the Fortress of Willows". The stone originally stood with its present head downwards.	Ar yr wyneb hwn, ceir yr arysgrif 'MACCVTRENI SALICIDVNI', a'r hyn sy'n cyfateb iddi mewn Ogam wrth ei hochr. Gallai fod o ddiwedd y bumed neu ddechrau'r chweched ganrif, ac ymddengys fod yr enw o dras Wyddelig. Gallai "Saliciduni" olygu "o Gaer yr Helyg". Safai'r garreg yn wreiddiol gyda'i phen presennol i lawr.
<b>Int 70 DL18</b>	
A sixth century memorial stone	Carreg goffa o'r chweched ganrif
This memorial stone from the sixth century AD once stood beside the Roman road near Scethrog. The inscription in rough capitals reads 'NAMNI FILIUS VICTORINI', Namni son of Victorinus. Its cylindrical shape gave rise to its reputed use at one time as a garden roller! It may be a re-used former Roman column, or more likely a milestone.	Arferai'r garreg goffa hon o'r chweched ganrif OC sefyll wrth ymyl y ffordd Rufeinig ger Scethrog. Mae'r arysgrif mewn priflythrennau bras yn darllen 'NAMNI FILIUS VICTORINI', Namni fab Victorinus. Arweiniodd ei siâp silindrog at ei ddefnydd honedig ar un adeg fel rholer gardd! Gallai fod yn hen golofn Rufeinig a gafodd ei ail-ddefnyddio, neu'n fwy tebygol, yn garreg filltir.
<b>Submitted by: Mervyn Bramley</b>	<b>Date: 28/08/2019</b>
<b>Completed by: .....</b>	<b>Date: .././2019</b>